# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 4ydd o Dachwedd 2021 drwy Zoom yn brydlon am 8.00 o'r gloch.**
Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Aled Evans, Margaret Griffith, Aled Davies, Thomas Prys Jones, Sian Angharad Parry, William Ifor Hughes, Anwen Jones, Ceri Jones, Naomi Jones, Darren Morley, a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau: Gareth O.Davies, Trefor Wyn Jones, Angela Williams a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7 o Hydref 2021. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Hydref 2021 –
   (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 04.11.2021).

4. **Datgan buddiant personol**, - Cynghorydd William Ifor Hughes, eitem 6 c) Cais Cynllunio Hufenfa De Arfon Cyf., oherwydd ei fod yn gysylltiedig â'r lle, (Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod).

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd**
**Mis Tachwedd 2021**

| Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Rhoslan** | **Draeniad – am oddeutu 4 diwrnod** | **Priffyrdd** |

**a) Cau'r Ffordd Dosbarth III ger Betws Fawr, Llanystumdwy ar 5.10.2021** – newid polyn diffygiol a gwaith ceblau ar hyd y ffordd ar ran 'BT Openreach'. **Derbyn**.

**b) Cau'r Ffordd Dosbarth III ger Efail Plas Hen, Chwilog ar y 07.10.2021**- gwaith ar geblau ar hyd y ffordd ar ran 'BT Openreach'. **Derbyn**

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais rhif: C21/0940/41/LL - Eirianedd, 16 Bro Sion Wyn, Chwilog, Pwllheli** – estyniad unllawr cefn. **Dim gwrthwynebiad.**

b) **Cais rhif: C21/0996/41/DT - Cefn Coch, Llangybi, Pwllheli**, - estyniad ac adnewyddu adeilad allanol presennol i'w ddefnyddio fel anecs yn gysylltiedig i'r prif dŷ. **Dim gwrthwynebiad, ond fod angen rhoi amod mai at bwrpas y teulu sydd yn byw yno'n unig y dylai fod, ac na ddylid ei werthu fel uned arwahan.**

c) **<u>Cais rhif: C21/0982/41/LL - Hufenfa De Arfon Cyf, Hufenfa De Arfon, Y Ffôr</u>**- codi adeilad newydd maidd i gynhyrchu cynnyrch caws ynghýd â strwythurau cysylltiedig yn cynnwys tyrau oeri, seiloau storio, oergelloedd a phont cysylltu i'r adeilad presennol ac adeiladwaith cysylltiedig. **<u>Cefnogi</u>**.

**<u>7. Ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg(CSGA) 2022-32</u>**
Mewn cyfarfod ar **21 Gorffennaf, 2021** bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, i fynd i gyfnod ymgynghori cyhoeddus. Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o **15 Hydref 2021 hyd at 1:00yh ar 17 Rhagfyr 2021.**

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor isod:-
www.gwynedd.llyw.cymru/CymraegMewnAddysg
**<u>Angen roi yr eitem yma ar raglen Rhagfyr 2021.</u>**

8. **<u>Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd - Ardal Ni 2035</u>** – diolch i'r Cynghorwyr Tegid Jones, Angela Williams, Sion Aled Jones a'r Clerc am fod yn bresennol i drafod ymateb y Cyngor Cymuned hefo Swyddog Cefnogi Cymundedau (Ardal Dwyfor), ar 25.10.2021.

9. **<u>Fersiwn ddiwygiedig o'r model brotocol ar gyfer datrys cwynion yn anffurfiol y gellir ystyried ei fabwysiadu gan Un Llais Cymru</u>**. Y diwygiad a wnaed i'r protocol yw y dylid erbyn hyn ceisio datrys cwynion lefel isel a gwamal yn anffurfiol. <u>Angen ei drafod.</u>

<u>Penderfynwyd derbyn y ddogfen fel ag yr oedd fwy neu lai, a'i fod yn ddogfen gennym yn hytrach na polisi, a'i fod yn cael alw'n 'Protocol Datrysiad Lleol', a rhoi'r "Pwyntiau pwysig i'w cofio" fel Atodiad 1. Ni does gan y Cyngor bwyllgor cwynion, felly byddai hwn yn bwyllgor anffurfiol. Gellir cael y Cadeirydd, Clerc a'r Achwynydd yn y pwyllgor, bod y Clerc yn gwneud nodiadau ac os bydd angen, yr ombwdsman wedyn. Angen ei roi ar wefan y Cyngor wedyn yn y Gymraeg a'r Saesneg.</u>

<u>10. **Ymgynghoriadau CynllluniauTeithio Llesol**</u> – Mae Awdurdodau Unedol wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd gydag aelodau'r cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref, ar eu Cynllluniau Teithio Llesol. Mae'r cynllluniau hyn yn gobeithio gwella'r rhwydwaith o lwybrau teithio sydd ar gael ar gyfer cerdded a seiclo er mwyn cefnogi uchelgais 15 mlynedd Llywodraeth Cymru i greu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau cerdded a seiclo diogel, uniongyrchol, cydlynol, cyfforddus a deniadol oddi fewn ac yn cysylltu aneddiadau allweddol ar draws Cymru. Mae cerdded a seiclo yn cynnig ymateb ymarferol i helpu Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau amgylcheddol ac iechyd. Trwy ddarparu rhwydweithiau o lwybrau o ansawdd uchel bydd mwy o bobl yn gallu cerdded a seiclo yn rheolaidd yn hytrach na defnyddio car.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn mynnu fod awdurdodau lleol yn ymgynghori gydag aelodau'r cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol wrth ddiweddaru eu mapiau rhwydwaith teithio llesol. Mae'n mynnu hefyd fod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â phob person sydd wedi gofyn am y cyfle i leisio barn ac mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo teithio llesol.

Gan mai cyfrifoldeb Awdurdodau Unedol yw'r cynllluniau hyn a'u bod o'r herwydd yn lleol eu naws, ni fydd Un Llais Cymru yn ymateb iddynt fel mudiad ymbarél. Mae'r ymgynghoriadau hyn yn cynnig cyfle pwysig i ddylanwadu ar sut fydd rhwydweithiau, llwybrau a chyfleusterau teithio llesol yn cael eu datblygu i'r dyfodol, fel eu bod yn bodloni anghenion pobl leol ar gyfer hamdden, ond hefyd ar gyfer teithiau bob dydd megis cysylltiadau i ysgolion, siopau neu weithleoedd. Mae Un Llais Cymru yn credu felly ei bod yn amserol a phwysig fod Cynghorau

Cymuned a Thref yn cael y cyfle i gyfrannu i'r cynlluniau hyn trwy ymateb i ymgynghoriad eu Awdurdod Unedol. **<u>Nid oedd y Cynghorydd Aled Evans wedi clywed dim am y llwybr rhwng Chwilog a Llanystumdwy, felly gofynwyd i'r Clerc atodi'r ebost uchod a gwneud ymholiadau hefo Mr Steffan Jones, Cyngor Gwynedd.</u>**

11. **<u>Arwyddion Pontydd</u>** – derbyniwyd ebost gan Mr Robin Owen, Ymgynghoriaeth Gwynedd, yn dweud yn anffodus na fydd yn bosib gosod yr arwyddion tan fis Ebrill 2022. Wrth iddo fynd o amgylch y pontydd sylweddolodd fod angen gwneud tipyn o waith arnynt fel clirio tyfiant, ail bwyntio o amgylch y cerrig a rhoi 'coppings' oedd ar goll. Gan bod y gyllideb strwythurau yn dynn eleni mae am drefnu i wneud y gwaith cynnal a chadw ar y pontydd a gosod yr arwyddion ar yr un adeg fis Ebrill nesaf. **<u>Derbyn</u>**.

**<u>Materion yn y gymuned</u>**.

**<u>12. Meddygfa Cricieth</u>** – derbyniwyd gwybodaeth fod gan Meddygfa Cricieth drefn o orfod ciwio y tu allan pan mae apwyntiad ganddynt i weld meddyg/nyrs. Y Clerc wedi derbyn yr ateb isod ar gan 15.10.2021- Rheolwr Practis Canolfan Iechyd Porthmadog, a Rheolwr Dros Dro Canolfan Iechyd Cricieth.

*"Hyd at rhyw bythefnos yn ôl, y canllawiau gan y Bwrdd Iechyd oedd fod y drysau yn aros ar gau, ond ein bod yn defnyddio synnwyr cyffredinol gyda cynnig i gleifion ddod i mewn i eistedd, er enghraifft gyda cleifion oedrannus. Rwyf wedi bod yn atgoffa fy staff am hyn yn enwedig yn ddiweddar pan mae hi wedi bod yn glawio yn ofnadwy. Mae ambell i glaf hefyd wedi gofyn os y cawn ddod i mewn i eistedd gan eu bod yn simsan ar eu traed a bod dim lle ar y fainc tu allan, a does dim un wedi cael ei gwrthod.*

*Ar ôl cael aelod o'r Bwrdd Iechyd yn y practis wythnos diwethaf, cawsom ganiatâd i agor y drysau unwaith eto, ond fod diogelwch ein cleifion (o ran y fiwrs) yn hanfodol. Felly, mi wnaethom brawf wythnos yma, gyda'r drysau yn Griccieth wedi agor ganol bore Dydd Mercher tan brynhawn Dydd Iau. to. Yn anffodus mi roedd sawl claf yn eistedd ar y cardiau a oedd wedi cael eu rhoi ar bob yn ail cadair yn dweud 'Peidiwch a Eistedd'. Cefais hefyd gŵyn gan glaf oedd yn eistedd yn yr ysafell aros, fod yna glaf arall yno oedd yn tagu drost pob man, a pam yr oedd y claf hwn wedi cael ei adael i mewn i eistedd?*

*Mi roedd rhai o'r clinigwyr hefyd yn poeni fod cleifion yn dod i mewn heb fod neb yn tynnu eu sylw at bwysigrwydd aros tu allan os oes ganddynt unrhyw symptomau covid.*

*Felly, y penderfyniad y gwnaethom oedd ein bod angen paratoi yn well cyn agor y drysau yn Griccieth a Phorthmadog yn barhaol. Mae hyn yn cynnwys cael troli neu fwrdd fel mae cleifion neu ymwelwyr yn dod i mewn gyda poster sy'n sôn am symptomau, masciau, golchi dwylo ayyb, ac hefyd cynllun gwell gyda'r cadeiriau. Tydio ddim yn broblem ym Mhorthmadog gan bod y cadeiriau yn rhai unigol, ond yn Griccieth maent yn sownd yn ei gilydd, felly efallai na rhoi tâp ar hyd y cadeiriau sydd ddim i'w ddefnyddio yw'r unig ateb.*

*Ar hyn o bryd mae tri aelod o staff yn ateb y ffôn yn ystod y dydd. Er mwyn darparu gwasanaeth sy'n dderbyniol, dylsau hyn fod yn 4, ac rydym bron iawn yn 50 awr yr wythnos yn brin. Mae proses recriwtio y Bwrdd Iechyd yn un ofnadwy o araf a rhwystredig (mae'n cymeryd 3-4 mis ô ofyn am lenwi y swydd i berson gael eu clirio i gychwyn) a mae gweddill y staff ô dan bwysau mawr i geisio gwneud y gorau phosib yn y cyfnod anodd yma.*

*Y newyddion da yw fod cyfweliadau wedi bod wythnos yma a mae'r ddwy swydd wedi cael eu cynnig ac eu derbyn. Rwyf yn gobeithio y cawn nhw gychwyn efo ni yn y flwyddyn newydd.*

*Rwyf yn credu bod yn bwysig iawn i ni gyfathrebu gyda'n cleifion a rhannu beth sy'n mynd ymlaen gyda'r practis, felly diolch yn fawr am ddod mewn cysylltiad. Rwyf wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gofal Cychwynnol y Gorllewin, os yw'n bosib trefnu rhyw fath o daflen wybodaeth i yrru i gleifion ynglyn a'r ddau bractis yn ymuno, gan fod gan lawer un gwestiynnau, neu yn poeni eu bod ddim yn medru cael yr un gwasanaeth a maent wedi arfer ei gael".* **<u>Gofynwyd i'r Clerc son am hyn yn Y Ffynnon.</u>**

13. **Llanystumdwy**

a) **Parcio gyferbyn tai Maen y Wern ac i fyny am Tý Newydd** – problem fod trigolion sydd yn byw yn y tai yn parcio ar y lon gul yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio. Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn gofyn am y posiblrwydd o gael llinnellau melyn yno. **Heb gael ateb eto.**

b) **Afon Llanystumdwy** – derbyniwyd sylwadau mai un darn o bren oedd yn croesi'r ffos gyntaf ar hyd y llwybr ger yr afon, ar ol pasio'r Bedd. Mae'n debyg fod dau ddarn coedyn ('slipan lein') yno cynt. Hefyd, nodwyd fod coeden wedi prydru ac yn pwyso ar goeden arall gerllaw**. Clerc wedi anfon lluniau ac ymholiad at Cyngor Gwynedd.**

c) **Cais i arafu traffig o'r A497 o gyfeiriad Cricieth i Lanystumdwy** – derbyniwyd llythyr (ar 02.09.21) gan un o drigolion Llanystumdwy yn cyfeirio at y ffaith fod problem o draffig trwm yn creu perygl ar hyd y lon. Dywedwyd fod troi i mewn i'r pentref, yn peryglu bywyd yn rheolaidd. Bod gyrwyr tu ol y rhes traffig yn tynnu allan i oddiweddyd heb edrych os yw'r ceir o'u blaenau yn arafu i droi i mewn i'r pentref. **Y Clerc wedi anfon ebost at yr Adran Priffyrdd.**

ch) **Lori arall wedi taro congl Pont Rhyd y Croesau**. Y Clerc wedi anfon llun ac ebost at Cyngor Gwynedd, ac wedi trafod y mater dros y ffon, i dynnu sylw at y ffaith nad oedd yr arwydd sydd ger Lodge Gwynfryn ddigon amlwg. **Disgwyl ymateb.**

d) **Diffibileiddiwr**- ebost yn cadarnhau fod y 'diffib.'newydd wedi cael ei osod yn Llanystmdwy rwan, ac yn diolch i'r Cyngor Cymuned am gyfrannu'n ariannol tuag at y gost.

14. **Rhoslan/Ynys**

**Gwinllan Rhos Ddu** -treth dalwyr o'r tai yn yr Ynys yn mynegi pryderon ynglŷn â beth sy'n mynd ymlaen yn Winllan Rhos Ddu. Bu cwyn o'r blaen rai blynyddoedd yn ol, a bu Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i'r safle, a rwan mae'r cwynion eto yn codi eu pennau.

Mae'r winllan wedi ei gwerthu yn bedwar darn. Ymddengys fod un darn wedi ei werthu i rywun o Borthmadog. Mae caban coed sylweddol wedi ei adeiladu ar y darn tir yma a mae swn plant yno'n amal iawn yn ogystal a ci yn cyfarth. Mae'r treth dalwyr yn holi am sefyllfa iechyd a diogelwch gyda'r plant. Mae y tir yma yn nodedig am ddrogod sy'n peryglu 'limes disease' os byddai rhywun yn digwydd cael trogen yn glynnu i'w groen a'i frathu. Hefyd gofynir lle mae 'ty bach' a charthffosiaeth os oes un?

Mewn dau ddarn arall o'r winllan mae llynnoedd wedi cael eu creu a peiriannau cloddio wedi bod yno yn creu'r llynnoedd drwy groni dwr o ffos oedd yn llifo drwy'r winllan. Cwestiwn y trethdalwyr ydi os oes angen caniatad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith fel hyn, neu beth am gais cynllunio hyd yn oed? Teimlent fod hyn yn ymharu ar bio amrywiaeth y safle.
Yn ogystal a hyn mae cabannau eraill o fewn y winllan, ond yn ddiweddar mae camerau diogelwch ac arwyddion 'camerau' wedi eu gosod tua'r fynedfa i'r winllan er mwyn gwneud yn saff nad oes unrhyw un yn mynd yno i fysnesu. **Gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau hefo Cyfoeth Naturiol Cymru,/ Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd i holi os oedd hyn yn iawn, bod bws mini yn mynd yno o dro i dro hefo tua 12 o blant 3-5 oed o feithrinfa ym Mhorthmadog,**

15. **Chwilog**

**Ffos rhwng Tyddyn Heilyn a Chwilog Fawr** – mae ffos ddyfn ar hyd y lon gul, ar y chwith am gyfeiriad Chwilog. Mae cerbydau yn gorfod bagio nol weithiau ac yn mynd yn sownd yn y ffos, ac yn gorfod cael cymorth i gael ei tynnu'n rhydd gan dractorau ffermwyr lleol. Byddai'n haws gosod peipen ddraen yn y ffos, a gorchuddio'r ffos fel nad oes peryg i gerbydau fynd i drafferth. **Anfon llythyr at Cyngor Gwynedd.**

16. **Pencaenewydd/Sardis**

17. **Llangybi**

18. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 04.11.2021, a rhagolwg o'r gwariant tebygol erbyn 31.03.2022. Y Cadeirydd wedi llofnodi'r dogfennau i gadarnhau ei bod yn gywir. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

19. **Elusen William Ellis** – angen rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd, hefo dyddiad cau i dderbyn cais am arian erbyn 30.11.2021. Bydd y ceisiadau yn cael ei trafod yn dilyn y prif gyfarfod ar 02.12.2021

20. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Bydd angen ei roi yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2021 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2022.

21. **Diffibileiddiwr yn Rhoslan** – holi am y posiblrwydd o osod diffibileiddiwr newydd oherwydd nad oes un yno. Trafodwyd y mater o osod un yng Nghapel y Beirdd, Ynys, ac un ger y lloches bws yn Rhoslan. Eglurwyd fod £1000.00 wedi cael ei neilltuo yn y gyllideb ar gyfer hyn, yn y Pwyllgor Busnes/Cyllid o flaen y prif cyfarfod 04.11.2021. Angen gwneud ymholiadau.

22. Cyflog mis Hydref 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS :-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Hydref 2021<br>35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 -<br>Llai treth £77.40<br>= £309.35 | **309.35** | **309.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Hydref 2021 | 387.00 x 20% = £77.40 | **77.40** | **77.40** |
| Costau'r Clerc<br>Hydref 2021 | £16.66 | **16.66** | **16.66** |

Eitem ychwanegol wedi cyrraedd rhy hwyr i'w gynnwys ar y rhaglen - drwy ganiatád y Cadeirydd:-
Cais cynllunio :**C21/0886/41/LL - Llwyn Gwyn, Llangybi**, Pwllheli,- adeiladu sied gyda tanc slyri tanddaearol. **Cefnogi.**

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 02.12.2021.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**